# Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

## 2023- 2027

# Cynnwys

1. Rhagarweiniad
2. Pwrpas
3. Cwmpas
4. Cyfrifoldebau Allweddol
5. Egwyddorion Cyffredinol
6. Cyfarthrebu
7. Mesurau Effaith
8. Toriadau ar y Polisi a Chwynion

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Mae Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion (Y Coleg) yn gweithio tuag at greu amgylchedd gwaith a dysgu cefnogol a chynhwysol sy'n rhydd o wahaniaethu, lle ceir parch y naill at y llall a chydraddoldeb i bawb, a lle caiff gwahaniaethau eu dathlu a'u parchu. Mae'r Coleg yn ymfalchïo yn ei amrywiaeth ac mae'n gwerthfawrogi'r ffordd y mae hyn yn cyfoethogi bywydau pawb yn ei gymuned.

1.2 Mae'r polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) wedi'i osod o fewn cyd-destun cenhadaeth, gwerthoedd, ymddygiadau a blaenoriaethau strategol y coleg. Mae'r Coleg yn datblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol (SEAP) gydag amcanion a osodir ac a gyhoeddir ar gyfnodau o bedair blynedd. Cânt eu cyfeirio gan gynllun gweithredu cynhwysfawr EDI sydd hefyd yn rhoi nodau'r polisi hwn ar waith, ac sy'n cael ei fonitro gan y pwyllgor EDI, y Bwrdd Ansawdd a'r Pwyllgor Llywodraethu Dysgwyr a Safonau.

## 2. PWRPAS

2.1 Mae'r Polisi EDI yn gosod allan gofynion a chyfrifoldebau'r coleg ar gyfer sicrhau a hybu cydraddoldeb i holl fudd-ddeiliaid cymuned y coleg yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011.

2.2 Mae'r polisi yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at gynhwysiant ac amrywiaeth er mwyn creu amgylchedd lle mae pawb yng nghymuned y Coleg yn gallu cyfranogi a chyflawni eu potensial. Mae'n ceisio sicrhau na chaiff unrhyw berson ei drin yn llai ffafriol neu'n anffafriol ar sail unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig (gweler isod);

- oedran
- ailbennu rhywedd
- bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- bod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth
- anabledd
- hil gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol
- crefydd neu gred
- rhyw

2.3 Mae cyfrifoldeb ar holl gymuned y coleg i gynnal y polisi hwn, hybu cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu, troseddau casineb, aflonyddu ac erledigaeth.

## 3. CWMPAS

3.1 Mae'r polisi'n cwmpasu holl feysydd y Coleg ac mae'n berthnasol i holl fudd-ddeiliaid cymuned y Coleg.

3.2 ***Dysgwyr*** - Holl ddysgwyr Llawn Amser, Rhan-amser, Ysgol, Addysg Bellach ac Addysg Uwch a Phrentisiaid.

3.3 ***Staff*** - Holl staff Llawn Amser, Rhan-amser, a staff a Is-gontractiwyd.

3.4 ***Ymwelwyr*** - Bydd y Coleg yn trin ymwelwyr gyda'r un parch a ddangosir i staff a dysgwyr, yn yr un modd nid yw'n dderbyniol i staff neu ddysgwyr gael eu trin yn amharchus gan ymwelwyr.

## 4. CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

Mae gan nifer o grwpiau ac unigolion rolau allweddol yn natblygiad a gweithrediad y polisi hwn:

4.1 Mae gan Fwrdd y Gorfforaeth atebolrwydd ar gyfer cymeradwyo’r polisi ac am sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag amcanion strategol y coleg.

4.2 Mae’r Prif Weithredwr / Pennaeth a’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn gyfrifol am sicrhau:

- Bod y coleg yn bodloni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â chydraddoldeb.
- Eu bod yn hyrwyddo’r polisi EDI a chamau gweithredu cysylltiedig
- Bod gan y Cyfarwyddwr Profiad Dysgwyr gyfrifoldeb dynodedig ar gyfer EDI a’i fod yn cadeirio’r pwyllgor EDI.

4.3 Mae’r Pwyllgor EDI yn gyfrifol am gefnogi rhoi’r polisi EDI ar waith ar draws y coleg;

- Trwy gyfarfod 3 gwaith bob blwyddyn academaidd, sy’n sicrhau bod ganddo gynrychiolwyr staff, undeb a dysgwyr.
- Gosod a monitro’r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol (SEAP)
- Gwerthuso data EDI ar staff a dysgwyr, ac amlygu unrhyw feysydd i’w datblygu.
- Hwyluso gweithgorau mewnol i ddatblygu meysydd gwaith penodol sydd wedi’u hamlygu fel meysydd i’w datblygu.
- Cefnogi’r coleg i greu amgylchedd cynhwysol ac amrywiol.
- Cefnogi’r coleg i gyflawni ei ddyletswyddau statudol a’i ddyletswydd gyhoeddus gan gynnwys gwybodaeth ac adroddiadau cydraddoldeb blynyddol.
- Darparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth ar gymhwyso’r polisi hwn i’r holl fudd-ddeiliaid.
- Cysylltu â chyrff cydraddoldeb priodol.
- Comisiynu hyfforddiant a datblygiad perthnasol er mwyn gweithredu’r polisi a’r cynllun gweithredu.

4.4 Mae’r holl reolwyr yn gyfrifol am sicrhau:

- Bod gan staff ddealltwriaeth glir o ymagwedd y coleg tuag at EDI a’u bod yn nodi datblygiad staff yn ôl yr angen.
- Bod staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol EDI yn ystod y cyfnod cynefino ac unrhyw hyfforddiant dilynol.
- Bod bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu yn cael eu trin mewn modd effeithiol.
- Bod hiliaeth a throseddau casineb yn cael eu rheoli’n effeithiol ac eir ati i ddod i ben â nhw.
- Bod EDI wedi’i ymgorffori ym mhob gweithgaredd gan gynnwys addysgu a dysgu.
- Eu bod i bob pwrpas yn arwain trwy enghraifft o ran trin yr holl staff a dysgwyr gydag urddas a pharch a bod yn deg a rhesymol yn eu hagweddau a’u hymddygiadau.

4.5 Mae holl aelodau cymuned y Coleg yn gyfrifol am sicrhau:

- Bod y polisi yn cael ei ddeall a’i weithredu ( cael ei rannu fel rhan o’r broses gynefino).
- Bod Ymddygiad, Gweithredoedd a chyfathrebiadau bob amser yn ystyried unigrywiaeth eraill a’n cymuned.
- Bod pawb yn cael eu trin â pharch, cwrteisi ac urddas.
- Bod Ymddygiad, Gweithredoedd a chyfathrebiadau nad ydynt yn unol â’r Polisi EDI yn cael eu herio ac y gweithredir arnynt.

## 5. EGWYDDORION CYFFREDINOL

5.1 Mae Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn ymrwymedig i ddarparu addysgu a dysgu Rhagorol a Phrofiad Dysgu Ysbrydoledig. I gyflawni'r nod hwn rhaid bod EDI wedi'i ymgorffori yn niwylliant y coleg. Felly mae blaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol yn cyd-fynd â, ac yn tanategu, cynllunio gweithredol a strategol y coleg ar bob lefel.

5.2 Mae ymrwymiad y coleg i hybu cydraddoldeb fel cyflogwr a darparwr addysg yn mynd y tu hwnt i gydymffurfiad deddfwriaethol er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan yn llawn, beth bynnag fo'u cefndir neu nodweddion personol.

5.3 Mae'r coleg yn credu'n gryf bod amrywiaeth ei gymuned yn un o'i gryfderau mwyaf a'i asedau mwyaf gwerthfawr.

5.4 Bydd y coleg yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau cyfreithiol i gyflawni cyfrifoldebau sector cyhoeddus penodol a hefyd cyffredinol.

5.5 Bydd y coleg yn monitro holl agweddau poblogaethau staff a dysgwyr. Caiff data ei fonitro er mwyn sicrhau bod gwasanaethau a gweithgareddau yn briodol, yn sensitif ac yn diwallu anghenion unigol. Bydd y coleg yn cymryd mesurau priodol i ddiogelu data sensitif personol, gan gynnwys cyfyngu mynediad a lle bo'n bosibl gwneud data'n ddi-enw gan roi sylw priodol i egwyddorion diogelu data.

Bydd y pwyllgor EDI yn edrych ar ddata dysgwyr (cofrestru a llwyddiant) yn yr ail gyfarfod blynyddol a data Staff yn y trydydd cyfarfod bob blwyddyn (meysydd data i'w pennu). I gynnwys sgiliau Iaith Gymraeg.

5.6 Bydd y coleg yn cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar unrhyw bolisïau neu weithdrefnau newydd neu newidiadau arfaethedig i bolisïau a gweithdrefnau, fel modd i nodi unrhyw effaith andwyol ac i archwilio datrysiadau posibl i leihau'r rhain. Bydd Uwch Arweinydd yn eu cadeirio, ond nid perchennog y Polisi.

5.7 Bydd y coleg yn gwneud addasiadau ar gyfer yr holl fudd-ddeiliaid (dysgwyr, staff, contractwyr ac ymwelwyr) yn unol ag unrhyw nodweddion gwarchodedig ac anghenion a nodir lle bynnag y bo'n bosibl ac yn rhesymol.

5.8 Nod y coleg yw darparu cwricwlwm ymatebol sy'n cynnig y wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i ddysgwyr sydd eu hangen arnynt i fyw mewn cymdeithas fyd-eang a gweithio mewn economi byd-eang cystadleuol. Mae'r coleg yn sicrhau bod mynediad i wasanaethau cymorth yn greiddiol i gyflwyniad y cwricwlwm, gan gynnwys cymorth dysgu a ble bo'n ofynnol llythrennedd a rhifedd, gan gynnwys sgiliau iaith Gymraeg.

5.9 Mae'r coleg yn ymrwymedig i ddatblygu a chyflwyno ystod o gyfleoedd hyfforddiant ar gyfer staff a dysgwyr, yn ychwanegol i ystod o adnoddau i gefnogi dealltwriaeth o gyfrifoldebau unigol.

5.10 Nod y coleg yw sicrhau bod ei ddyletswydd i hybu a hyrwyddo EDI yn ymestyn i'r sefyllfaoedd hynny lle mae wedi'i is-gontractio i eraill.

5.11 Gall y coleg gymryd camau cadarnhaol cyfreithiol i hybu cydraddoldeb. Gall hyn fod o ran darpariaeth cyfleusterau neu wasanaethau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau penodol a dangynrychiolir neu i dargedu hyfforddiant gwaith a/neu gyfleoedd addysgol tuag at grwpiau penodol a dangynrychiolir mewn maes gwaith neu faes astudio penodol. Bydd y coleg yn sicrhau y bwriedir unrhyw strategaethau gweithredu cadarnhaol i fod yn fesurau dros dro yn unig ac ni chânt eu defnyddio unwaith bod yr anghenion arbennig wedi cael eu diwallu neu os yw tangynrychiolaeth ddim yn bodoli mwyach.

5.12 Mae'r coleg yn ymrwymedig i ddileu unrhyw ffurf o wahaniaethu trwy herio anghydraddoldeb, rhagfarn a gwahaniaethu boed yn uniongyrchol, yn anuniongyrchol, trwy gysylltiad neu drwy ganfyddiad.

## 6. CYFARTHREBU

6.1 Nod y coleg yw sicrhau bod y polisi hwn yn gwbl effeithiol a bod holl aelodau cymuned y coleg yn ymrwymedig iddo. Mae'r coleg yn ymgymryd i weithio mewn partneriaeth â staff, dysgwyr, undebau llafur, a budd-ddeiliaid wrth ei ddatblygu a'i roi ar waith.

6.2 Bydd y coleg yn cynyddu ymwybyddiaeth staff a dysgwyr o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant trwy ystod o ddulliau gan gynnwys drwy: ei bolisïau; trwy diwtorialau; adborth staff a dysgwyr; hyfforddiant a datblygiad gan gynnwys Diwrnodau Datblygiad Proffesiynol Parhaus y coleg (ar gyfer staff); hyrwyddo mewnol ac allanol a gweithgareddau blynyddol. Bydd EDI yn chwarae rhan allweddol mewn adolygiadau cwrs, hunanasesiadau a chanlyniadau adrannau.

6.3 Caiff gweithdrefnau ar gyfer adrodd am fwlio, hiliaeth, gwahaniaethu, ymddygiad annerbyniol neu unrhyw droseddau casineb eu sylwi.

## 7. MESURAU EFFAITH

7.1 Gweithredir y polisi hwn yn llawn drwy'r canlynol:

- Ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn llwyr mewn addysgu, dysgu ac asesu.
- Holl fudd-ddeiliaid cymuned y coleg i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn weithredol ac yn effeithiol o ganlyniad i hyfforddiant a datblygiad effeithiol sy'n cefnogi rhoi'r polisi hwn a'r cynllun gweithredu Cydraddoldeb Strategol ar waith.
- Caiff data ei fonitro yn y pwyllgor EDI ac fe fydd yn arwain at gamau perthnasol i ddysgwyr a staff fel ei gilydd.
- Gwrandewir ar farn staff a dysgwyr a dangosir diwylliant EDI cadarnhaol.
- Caiff y coleg ei gydnabod yn allanol am ei ymrwymiad i EDI.

## 8. TORIADAU AR Y POLISI A CHWYNION

8.1 Mae'r coleg yn cymryd methiant i gadw at y polisi hwn o ddifri a bydd adroddiadau o ddiffyg cydymffurfio yn cael eu hymchwilio. Mae'r coleg yn argymell yn gryf bod materion neu gwynion yn cael eu datrys yn anffurfiol ac yn lleol; fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae'r coleg yn cadw'r hawl i ddefnyddio gweithdrefnau disgyblu perthnasol.

8.2 Ni chaiff unrhyw aelod o gymuned y coleg ei erlid o ganlyniad i roi gwybodaeth am unrhyw weithred gan berson sy'n mynd yn groes i'r polisi hwn.

8.3 Ymdrinnir ag unigolion sy'n gwneud honiadau a brofir i fod yn ffug, yn unol â gweithdrefnau disgyblu'r coleg, fel hefyd unrhyw berson sy'n bwlio neu'n aflonyddu ar berson arall y maen nhw'n credu sydd wedi gwneud cyhuddiad yn ei erbyn.

| | |
|---|---|
| **Teitl y Polisi** | Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant |
| **Cyflwyniad y Polisi** | Datblygwyd y polisi yn unol ag arfer da cyfredol ac Ymchwil yn y sectorau AB ac AU. |
| **Cyfathrebu'r Polisi** | Gwefan y Coleg<br>Porth y Staff<br>Safle Google Addysgu a Dysgu'r Staff<br>Porth y Dysgwyr |
| **Prif bwrpas y Polisi**<br>*(Crynodeb Byr)* | Mae'r Coleg yn gweithio tuag at greu amgylchedd gwaith a dysgu cefnogol a chynhwysol sy'n rhydd o wahaniaethu, lle ceir parch y naill at y llall a chydraddoldeb i bawb, a lle caiff gwahaniaethau eu dathlu a'u parchu. |
| **Prif Awdur**<br>*(Sydd yn medru darparu cyngor ac arweiniad ar y cynnwys)* | Tom Snelgrove - Cyfarwyddwr Profiad Dysgwyr; Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. |
| **Dyddiad y'i Cymeradwywyd gan y Bwrdd Corfforaethol** | 29/06/2023 |
| **Dyddiad Dod i Rym** | Medi 2023 |
| **Dyddiad Adnewyddu** | Awst 2027 |
| **Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | 16/06/2023 |
| **Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg** | 16/06/2023 |
| **Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd** | 16/06/2023 |
| **Risgiau'n Gysylltiedig â'r Polisi**<br>*(Os nad yw'r polisi yn cael ei weithredu)* | Peidio â chydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011. |